



Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

## Cynrychiolwyr pobl ifanc, a rhieni plant, nad oes ganddynt alluedd meddyliol

Ymgynghoriad ar Bennod 31 o'r Cod ADY drafft; ynghylch cynrychiolwyr rhieni plant, a phobl ifanc, nad oes ganddynt alluedd meddyliol mewn perthynas â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Dyddiad cyhoeddi: 22 Ionawr 2021

This document is also available in English.  
Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynrychiolwyr pobl ifanc, a rhieni plant, nad oes ganddynt alluedd meddyliol

<b>Cynulleidfa</b>	Ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, lleoliadau blynyddoedd cynnar, sefydliadau'r trydydd sector ac unrhyw un arall sydd â diddordeb mewn anghenion dysgu ychwanegol.
<b>Trosolwg</b>	Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn nodi'r newidiadau a wnaed i'r bennod o'r Cod ADY drafft a'r rheoliadau yng ngoleuni'r sylwadau a ddaeth i law.
<b>Camau gweithredu</b>	Nid oes angen cymryd unrhyw gamau pellach.
<b>Rhagor o wybodaeth</b>	<p>Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch y ddogfen hon at:</p> <p>Tîm Trawsnewid y System Anghenion Dysgu Ychwanegol Is-adran Cymorth i Ddysgwyr Y Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ</p> <p>e-bost: <a href="mailto:SENreforms@gov.wales">SENreforms@gov.wales</a> Ffôn: 03000 062 6666</p> <p> @LIC_Addysg</p> <p> Facebook/AddysgCymru</p>
<b>Copïau ychwanegol</b>	Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn <a href="https://llyw.cymru/cynrychiolwyr-pobl-ifanc-rhieni-plant-nad-oes-ganddynt-alluedd-meddyliol">https://llyw.cymru/cynrychiolwyr-pobl-ifanc-rhieni-plant-nad-oes-ganddynt-alluedd-meddyliol</a>
<b>Dogfennau cysylltiedig</b>	Ymgynghoriad ar Bennod 31 o'r Cod ADY drafft; ynghylch cynrychiolwyr rhieni plant, a phobl ifanc, nad oes ganddynt alluedd meddyliol mewn perthynas â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. WG39574 (2020).

# Cynnwys

Cyflwyniad	3
Gweithdai ymgynghori wedi'u targedu	3
Y cwestiynau ymgynghori	4
Yr ymatebion	4
Atebion tri phrif gwestiwn yr ymgynghoriad	4
Y fethodoleg	5
Crynodeb gweithredol	5
Themâu'r ymatebion	6
1) Diogelu buddiannau ac atebolrwydd	6
Ymateb Llywodraeth Cymru	6
2) Eirioli	6
Ymateb Llywodraeth Cymru	7
3) Canllawiau a hyfforddiant	7
Ymateb Llywodraeth Cymru	7
4) Deddf Galluedd Meddyliol 2005	8
Ymateb Llywodraeth Cymru	8
Gweithdai ymgynghori â rhai â diddordeb	9
Atodiad A: Rhestr o'r Ymatebwyr	10

## Cyflwyniad

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar 3 Medi 2020. Roedd yr ymgynghoriad yn holi ynghylch cynigion i ganiatáu i gynrychiolwyr weithredu ar ran pobl ifanc, a rhieni plant, nad oes ganddynt alluedd meddyliol, wrth iddynt arfer eu hawliau o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael o wefan Llywodraeth Cymru

<https://llyw.cymru/cynrychiolwyr-pobl-ifanc-rhieni-plant-nad-oes-ganddynt-alluedd-meddyliol>

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am 8 wythnos, a daeth i ben ar 29 Hydref 2020.

Darperir rhestr o'r ymatebwyr yn Atodiad A, ond am y rheini sydd wedi gofyn am gael bod yn ddiennw. Gallwch wneud cais am gopiau o'r ymatebion.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o safbwyntiau'r ymatebwyr ynghylch cwestiynau'r ddogfen ymgynghori, ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru i'r prif themâu sy'n codi yn yr ymatebion.

## Gweithdai ymgynghori wedi'u targedu

Oherwydd natur arbenigol a thechnegol y cynigion, a'r cyfnod ymgynghori byrrach, ymchwiliodd Llywodraeth Cymru i ffyrdd o gyfoethogi'r ymgynghoriad drwy weithdai wedi'u targedu.

Gan weithio mewn partneriaeth â Plant yng Nghymru, cynhaliwyd gweithdai ymgynghori mewn dwy ysgol arbennig yng Nghymru lle roedd modd i bobl ifanc ag ADY cymhleth ymateb i'r ymgynghoriad drwy drafodaeth anffurfiol. Defnyddiodd ein partneriaid fersiwn hawdd ei deall y ddogfen ymgynghori, ynghyd â deunydd ychwanegol, i esbonio'r cynigion a'r diwygiadau ehangach i'r system ADY mewn ffordd ddealladwy er mwyn annog y myfyrwyr i gynnig eu safbwyntiau ar y cynigion.

## Y cwestiynau ymgynghori

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn tri phrif gwestiwn:

**Cwestiwn 1:** A yw'r darpariaethau ar gyfer dehongli rhiant plentyn fel y cynrychiolydd, neu'r rhiant a'r cynrychiolydd, mewn achosion lle nad oes gan y rhiant alluedd, yn briodol?

**Cwestiwn 2:** A yw'r darpariaethau ar gyfer dehongli person ifanc fel y cynrychiolydd, neu'r cynrychiolydd a'r person ifanc, mewn achosion lle nad oes gan y person ifanc alluedd, yn briodol?

**Cwestiwn 3:** Mae'r darpariaethau yn y rheoliadau drafft a'r bennod o'r Cod yn caniatáu i riant person ifanc, lle nad oes gan y person ifanc gynrychiolydd (fel y diffinnir yn rheoliad 2), weithredu fel ei gynrychiolydd. A yw'r cynnig hwn yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng caniatáu i unigolion wneud eu penderfyniadau eu hunain a chaniatáu i gynrychiolwyr wneud penderfyniad ar ran yr unigolion hynny nad oes ganddynt alluedd?

Roedd y pedwerydd cwestiwn yn gofyn i ymatebwyr gynnig unrhyw sylwadau eraill ynghylch y rheoliadau drafft a'r bennod o'r Cod.

Roedd Cwestiynau 5, 6 a 7 yn gwestiynau gorfodol ynghylch sut y bydd y cynigion yn effeithio ar y Gymraeg.

## Yr ymatebion

Daeth cyfanswm o 27 o ymatebion llawn i law i'r prif ymgynghoriad. Roedd 17 ymateb ar-lein arall yn anghyflawn, ac nid oedd modd eu defnyddio at ddibenion yr adroddiad hwn. Er enghraifft, yn achos y rhan fwyaf o'r ymatebion anghyflawn, roedd y ffurflenni wedi'u cyflwyno heb gwblhau unrhyw flychau. Roedd ambell un arall wedi ateb rhai cwestiynau ond wedi gadael cwestiynau eraill heb eu hateb, a heb ddarparu unrhyw sylwadau.

O'r 27 ymateb llawn, darparodd dau destun ysgrifenedig mewn ymateb i'r tri chwestiwn cyntaf, ond heb roi ateb penodol "ydyn/ydy" neu "nac ydyn/nac ydy". Dyna pam mai 25 yw nifer yr ymatebion sydd wedi'i nodi yn y tabl isod.

### Atebion tri phrif gwestiwn yr ymgynghoriad

	Cwestiwn 1	Cwestiwn 2	Cwestiwn 3
Ydyn/Ydy	19	21	20
Nac ydyn/ Nac ydy	1	2	0
Ddim yn siŵr	5	2	5
Cyfanswm	25	25	25

Ychydig iawn a atebodd bob un o'r cwestiynau gorfodol ynghylch y Gymraeg. Roedd yr atebion a roddwyd yn tueddu i ddynodi agwedd gadarnhaol at y Gymraeg, ond nid oeddent yn awgrymu sut y gellid gwella'r cynigion eu hunain i sicrhau effeithiau mwy cadarnhaol o ran y Gymraeg.

Cymerodd 22 o bobl ifanc eraill o ysgolion arbennig yng Nghymru ran mewn gweithdai ymgynghori wedi'u targedu. Darparwyd yr ymatebion hyn fel grŵp ac nid ydynt wedi'u

cynnwys yn y tabl uchod. Fodd bynnag, mae'r ymatebion wedi'u hystyried ochr yn ochr â'r prif ymgynghoriad wrth gytuno'n derfynol ar y rheoliadau a'r Cod ADY.

Mae'r tabl yn Atodiad A yn darparu manylion nifer yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ffurfiol yn ôl categori a lleoliad.

## **Y fethodoleg**

O ystyried y niferoedd cymharol fach sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn, nid ydym wedi darparu pwyntiau canran ar gyfer y cwestiynau penodol. Nid ydym chwaith wedi cynnwys dadansoddiad demograffaid o'r ymatebion a ddaeth i law. Fodd bynnag, cawsom ddigon o ymatebion i ddynodi consensws cyffredinol ar y cynigion. Nodwyd y prif themâu a godwyd hefyd a chânt eu trafod isod.

## **Crynodeb gweithredol**

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn gefnogol iawn i'r cynigion i sicrhau bod modd i gynrychiolydd arfer hawliau person ifanc neu riant plentyn o dan y system ADY, lle nad oes ganddynt alluedd meddyliol.

Roedd y rhan fwyaf o'r farn bod y dull gweithredu a amlinellir yn yr ymgynghoriad yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng caniatáu i berson ifanc yn benodol fod mor annibynnol â phosibl a darparu'r cymorth angenrheidiol i sicrhau bod y penderfyniadau gorau ar ei gyfer yn cael eu gwneud.

Roedd rhai ymatebwyr ychydig yn bryderus nad cynrychiolydd a benodir gan lys fyddai'r person gorau o reidrwydd i ddeall safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r person ifanc neu'r riant nad oes ganddynt alluedd meddyliol. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf hefyd yn deall na fyddai'r rheini nad oes ganddynt alluedd meddyliol yn gallu ymgysylltu'n llawn â'r system ADY heb gynrychiolydd. Yn ogystal, mae'n debygol y byddai angen cymorth mewn rhannau eraill o fywydau'r sawl sydd â chynrychiolydd a benodir gan lys, nid dim ond mewn perthynas ag ADY. A byddai rhieni pobl ifanc sydd â chynrychiolydd a benodir gan lys yn dal i allu cymryd rhan mewn cyfarfodydd neu mewn penderfyniadau ynghylch eu ADY.

Roedd y rhan fwyaf o'r rheini yr ymgynghorwyd â nhw yn teimlo hefyd bod ei gwneud yn bosibl i riant person ifanc nad oes ganddo alluedd meddyliol ei gynrychioli, lle na phenodwyd cynrychiolydd gan lys, yn ychwanegiad cadarnhaol. Roedd rhai yn teimlo bod hyn yn cryfhau rôl y riant o fewn y system ADY, gan barchu llais annibynnol y person ifanc ar yr un pryd.

Fodd bynnag, roedd rhai o'r farn y byddai angen hyfforddiant a chanllawiau ar gynrychiolwyr, yn enwedig lle ysgwyddir y rôl gan riant person ifanc, i sicrhau eu bod yn deall hyd a lled eu pwerau; hy pa benderfyniadau y cânt eu gwneud ac na chânt eu gwneud. Cododd eraill y ffaith nad oes dealltwriaeth dda o gwestiwn galluedd meddyliol y tu allan i gylch gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y maes, ac y byddai addysg neu hyfforddiant pellach o fudd i deuluoedd lle mae yna broblem o ran galluedd meddyliol.

Roedd pryder hefyd ynghylch asesu galluedd meddyliol, a ph'un a oedd angen hyfforddiant pellach i sicrhau bod galluedd yn cael ei asesu'n briodol.

Yn olaf, roedd rhai ymatebwyr am gael eglurder ynghylch y gwahaniaeth rhwng eiriolwr a chynrychiolydd, ac esboniad o wahanol rolau'r ddau.

## Themâu'r ymatebion

### 1) Diogelu buddiannau ac atebolrwydd

Cododd rhai gwestiwn diogelu buddiannau mewn perthynas â chynrychiolwyr. Roedd y pryder yn ymwneud ag absenoldeb mecanwaith o fewn y Cod ADY i sicrhau bod cynrychiolwyr yn cael digon o wybodaeth i gyflawni eu dyletswydd, o ran dealltwriaeth o'r system ADY a'r hawliau cyfreithiol perthnasol, ac o ran adnabod y person ifanc yn ddigon da i allu cynrychioli ei safbwyntiau yn iawn.

Roedd rhai yn teimlo nad oedd digon o fesurau diogelu buddiannau i ofalu bod plant a phobl ifanc nad oes ganddynt alluedd meddyliol, a'u cynrychiolwyr (gan gynnwys rhieni), yn cael gwybodaeth a chefnogaeth briodol i ddeall eu hawliau cyfreithiol o dan y system ADY.

Yn y gweithdai ymgynghori, codwyd hefyd mor bwysig yw gofalu bod gan bobl ifanc gynrychiolydd y maent yn ei adnabod yn dda er mwyn sicrhau bod eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau yn cael eu hadlewyrchu'n gywir wrth wneud penderfyniadau ar eu rhan.

Mae eraill wedi gofyn am ganllawiau penodol i helpu cynrychiolwyr gyda'u dyletswyddau.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Caiff cynrychiolwyr ofyn i awdurdod lleol eu cyfeirio i'w Gwasanaethau Eirioli Annibynnol i'w helpu i ddeall y system ADY. Os oes angen, bydd y gwasanaethau hyn yn helpu cynrychiolydd i wneud penderfyniadau gwybodus ar ran person ifanc, ac efallai yn rhoi gwybodaeth ychwanegol iddo mewn meysydd cysylltiedig eraill, megis darpariaeth addysg bellach. Mae'r Cod ADY wedi'i ddiwygio i'w gwneud yn glir bod gan gynrychiolwyr hawl i Wasanaethau Eirioli Annibynnol.

Dylid nodi hefyd y bydd cynrychiolwyr a benodir gan lys wedi cael canllawiau ar eu rôl eisoes, yn ogystal â thelerau penodol sy'n ymwneud â'u rôl. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn berthnasol i rieni sy'n gweithredu fel cynrychiolwyr oni bai eu bod wedi'u penodi gan lys. Yn yr achosion hyn, disgwyliwn i weithwyr cymdeithasol weithio gyda'r person ifanc a'i riant i oresgyn unrhyw broblemau yn ymwneud â diogelu buddiannau. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, trefnu cyfarfod gyda'r person ifanc a'i riant i drafod ei les. Gan fod gweithwyr cymdeithasol eisoes yn rhwym wrth ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau budd pennaf y person ifanc wrth wneud penderfyniadau ar ei ran, nid oes angen mesurau na chanllawiau diogelu pellach.

### 2) Eirioli

Roedd nifer o'r sylwadau a ddaeth i law yn ymwneud â gwasanaethau eirioli.

Gan na fydd cynrychiolwyr wedi cael llawer o brofiad o'r system ADY efallai, mae'n bosibl y bydd angen cymorth arnynt i ddeall rhai elfennau ohoni er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyflawn o bob opsiwn cyn gallu gwneud penderfyniad gwybodus. Roedd rhai am gael eglurder ynghylch p'un a oedd mynediad gan gynrychiolwyr i Wasanaethau Eirioli Annibynnol, y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu darparu o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Yn gysylltiedig â'r pwynt hwn, holodd ymatebwyr eraill p'un a fyddai'n ddefnyddiol cynnwys Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol hefyd mewn rhai achosion lle nad oes gan berson ifanc alluedd meddyliol.

Roedd yna nifer o sylwadau yn ymwneud â gwasanaethau eirioli yn fwy cyffredinol. Roedd rhai yn gofyn am fwy o gyfeiriadau at wasanaethau eirioli drwy gydol y Cod ADY, gan nodi mor ddefnyddiol y gall eiriolwyr fod i helpu pobl ifanc a rhieni i ddeall rhai prosesau a phenderfyniadau neu i fynegi eu hunain. Gwnaeth rhai y sylw bod gwasanaethau eirioli yn gallu helpu cyn i unrhyw bryder neu anghydfod godi, gan dorri ar nifer yr anghydfodau swyddogol.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r Cod ADY wedi'i ddiwygio i'w gwneud yn glir bod gan gynrychiolwyr hawl i Wasanaethau Eirioli Annibynnol. Rydym ar ddeall bod Gwasanaethau Eirioli Annibynnol mewn gwell sefyllfa o bosibl i roi cyngor ar faterion penodol yn ymwneud ag ADY ac rydym yn cytuno y dylai cynrychiolwyr gael mynediad at y gwasanaeth hwn hefyd.

Mae gwasanaethau Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol hefyd ar gael i bobl ifanc â chynrychiolydd; aed i'r afael â hyn yn y bennod berthnasol o'r Cod ADY.

Nid ydym wedi trafod y rôl y gall gwasanaethau eirioli eraill, anstatudol, eu darparu i blant a phobl ifanc yn fwy cyffredinol. Er bod Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod gwasanaethau eirioli eraill yn gallu darparu adnodd defnyddiol, nid cod ymarfer yw'r cod ADY ac o ganlyniad nid yw'n cynnwys arfer gorau nac argymhellion ynghylch sut y dylid cyflawni dyletswyddau.

### **3) Canllawiau a hyfforddiant**

Holodd rhai ymatebwyr ynghylch hyfforddiant ar gyfer cynrychiolwyr, yn enwedig mewn achosion pan fo rhiant person ifanc yn dod yn gynrychiolydd iddo. Gofynnodd ymatebwr arall a fyddai'n cael ei gwneud yn ofynnol darparu cymorth i rieni sy'n cyflawni rôl cynrychiolydd. Roedd rhai yn teimlo y byddai angen gwybodaeth a hyfforddiant, o bosibl, ar rieni sy'n ymgymryd â'r rôl newydd hon fel cynrychiolydd eu plentyn er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymgymryd yn hyderus â'r rôl a pheidio â phryderu am eu dyletswyddau newydd.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Ar hyn o bryd nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu darparu hyfforddiant ar gyfer rôl cynrychiolydd o dan y system ADY.

Mae cynrychiolwyr a benodir gan lys yn rhwym wrth y dyletswyddau a osodir gan y Ddeddf Galluedd Meddyliol ac felly mae ganddynt ganllawiau i'w dilyn, ond nid yw hynny'n wir am riant sy'n chwarae rhan cynrychiolydd. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio mai dim ond mewn perthynas â'r system ADY y mae'r rôl cynrychiolydd sydd dan sylw yma yn berthnasol; ni fydd rhieni sy'n cyflawni rôl cynrychiolydd yn gynrychiolwyr cyfreithiol y person ifanc ar faterion eraill, fel materion yn ymwneud ag eiddo.

Bydd gan rieni sy'n cyflawni rôl cynrychiolwyr hefyd yr hawl i gael mynediad at Wasanaethau Eirioli Annibynnol a all eu cynorthwyo i ddeall materion sy'n gysylltiedig â'r system ADY.



Mae Cod Ymarfer Deddf Galluedd Meddyliol 2005 hefyd yn darparu arweiniad i gynrychiolwyr, gan gynnwys pryd y dylai gweithwyr proffesiynol fod yn rhan o wneud penderfyniadau. Pan fo'n ofynnol gwneud penderfyniadau, dylid trefnu cyfarfod budd pennaf â'r gweithiwr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau bod y person ifanc yn cael y gefnogaeth briodol.

Os yw rhiant yn penderfynu nad yw'n dymuno bod yn gynrychiolydd bellach, caiff cynrychiolydd a benodir gan y llys gymryd drosodd.

#### **4) Deddf Galluedd Meddyliol 2005**

Cafodd yr ymgynghoriad nifer o sylwadau yn ymwneud â Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Roedd rhai'n cwestiynu sut y byddai'r drefn ar gyfer penderfynu ar alluedd meddyliol person ifanc neu riant plentyn yn gweithio'n ymarferol, a sut y bydd y drefn hon yn cysylltu â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol.

Holodd eraill ynghylch rôl rhieni o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol ac a oedd yn cydweddu â'r system ADY.

Roedd rhai'n pryderu bod gwybodaeth bresennol am y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn gyfyngedig o fewn rhai proffesiynau, ac y gallai hyn beri risg o dan y system ADY os bydd yn ofynnol i'r sawl sydd â dyletswyddau statudol ddilyn y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'i Chod Ymarfer.

Yn olaf, roedd ar rai eisiau gwybodaeth ynghylch sut y byddai'r system ADY yn gweithio mewn perthynas â'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid a fydd yn cymryd lle'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a sut y bydd y system ADY yn cael ei hadlewyrchu yn neddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019.

#### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Bydd y broses ar gyfer asesu galluedd meddyliol at ddiben cael cynrychiolydd yn parhau i gael ei hategu gan y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'i Chod Ymarfer. Rydym wedi cynnwys cyfeiriadau ychwanegol at God Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn y Cod ADY er mwyn sicrhau bod y rhai sydd â chyfrifoldebau yn cael eu cyfeirio at y ddeddfwriaeth berthnasol. Ni fydd y Cod ADY yn ailddatgan y gyfraith ar alluedd, ond bydd yn cynnwys croesyfeiriadau clir pan fo'n briodol.

Mae rôl y rhiant yn y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn fwriadol wahanol i rôl rhiant o dan y system ADY. Mae'r rheoliadau sy'n caniatáu i riant person ifanc ddod yn gynrychiolydd iddynt yn berthnasol i'r swyddogaethau penodol sy'n gysylltiedig ag ADY ac ni ddylid eu drysu gyda swyddogaethau eraill o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol.

Disgwyliwn i bob gweithiwr proffesiynol â dyletswyddau o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol fod yn gyfarwydd â'r Ddeddf a'r Cod Ymarfer. Bwriad croesyfeiriadau ychwanegol yn y Cod ADY yw cefnogi gweithwyr proffesiynol i gyflawni'r dyletswyddau hyn.

Yn olaf, rydym hefyd wedi cynnwys troednodiadau ychwanegol i esbonio y bydd angen gwneud ceisiadau i awdurdodi gwahanol leoliadau ar gyfer unigolion 16 ac 17 oed i'r Llys Gwarchod hyd nes y daw'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid i rym. Rydym yn bwriadu diweddarau rhai cyfeiriadau yn y Cod ADY pan ddaw Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 i rym.

## **Gweithdai ymgynghori â rhai â diddordeb**

Cododd y gweithdai ymgynghori yn Ysgol Hen Felin ac Ysgol y Deri bwyntiau tebyg i'w gilydd, a oedd yn adlewyrchu rhai o'r materion a godwyd yn y prif ymgynghoriad.

Roedd y ddau grŵp o'r farn bod angen cynrychiolwyr ac felly roeddent yn croesawu'r cynigion yn gyffredinol. Roedd y ddau grŵp hefyd yn credu bod cynnwys rhieni fel cynrychiolwyr yn bwysig oherwydd y nhw fyddai'n adnabod person ifanc orau.

Roedd gan rai amheuon ynghylch pa mor effeithlon y gallai cynrychiolydd a benodwyd gan lys fod wrth fynd ati i gyflawni ei ddyletswydd, heb adnabod y person ifanc yn dda. I leihau'r effaith hon, awgrymodd rhai y byddai'n hanfodol cynnwys rhiant yn y broses yn barhaol pan fo'r llys wedi penodi cynrychiolydd er mwyn sicrhau bod llais y person ifanc yn dal yn ganolog i unrhyw benderfyniadau a wneir. Awgrymodd rhai hefyd y dylai fod fframwaith i gefnogi'r rhiant i gyfathrebu â chynrychiolydd person ifanc. Byddai'r dull cydweithredol hwn yn sicrhau bod cydbwysedd cyfrifoldeb wrth fynd ati i wneud penderfyniadau ac y byddai hynny felly yn diogelu a chefnogi anghenion y person ifanc.

Yn olaf, roedd y grwpiau yn dymuno sicrhau na fyddai rhagdybiaethau byth yn cael eu gwneud ynghylch eu galluedd, ac y dylai fod proses glir ar gyfer asesu galluedd meddyliol.

## Atodiad A: Rhestr o'r Ymatebwyr

Rhif	Enw	Sefydliad
<b>Atebion ar-lein</b>		
1	Di-enw	
2	Paula Hopes	GIG Cymru
3	Di-enw	
4	Yvonne Parker	
5	Di-enw	
6	Di-enw	
7	Julian Lewis	Ysgol Pen Coch
8	Julia Green	Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion
9	Di-enw	
10	Di-enw	
11	Alison Minett	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
12	Einir Thomas	Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn
13	Di-enw	
<b>Atebion a anfonwyd i'r blwch post</b>		
14	Nicola Lewis	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe – GIG Cymru
15	Di-enw	
16	Deb Austin	Cydweithfa Iechyd Meddwl GIG Cymru
17	Meilyr Rowlands	ESTYN
18	Natalie Gedrych	Cyngor Abertawe
19	Gemma Halliday	Gofal Cymdeithasol Cymru
20	Sally Holland	Comisiynydd Plant Cymru
21	Rebecca James	Cyngor Ceredigion
22	David Goodger	Blynyddoedd Cynnar, Cymru
23	Glyn Jones	Rhwydwaith Iechyd Meddwl Cymru
24		Coleg Nyrso Brenhinol Cymru
25	Di-enw	
26	Kirsten Jones	Natspec

## **Gweithdai Ymgynghori**

Ysgol Hen Felin (Rhondda Cynon Taf) - 11 yn cymryd rhan (8 Gwryw / 3 Benyw)

Ysgol y Deri (Caerdydd) - 11 yn cymryd rhan (11 Gwryw)

Roedd pob unigolyn a gymerodd ran yn y gweithdai yn berson ifanc mewn ysgol arbennig, rhwng 16 ac 19 oed.